

Ceir yn Llanfaglan safle sydd wedi bod yn gysegredig am fwy na mil a hanner o flynyddoedd. Mae presenoldeb ffynnon sanctaidd gerllaw (wedi ei mewnlenni yn y 19eg ganrif), y fynwent fawr o amgylch, y garreg-golofn yn yr adeilad sydd wedi ei dyddio yn hyderus i'r 5ed neu yn gynnar yn y 6ed ganrif, a chysegriad yr eglwys i St Baglan, oll yn tystio i'w gwreiddiau cynnar, ac efallai cyn-Gristnogol. Mae'r garreg-golofn, a ddarganfuwyd wedi ei hadeiladu yn rhan o'r ffabrig yn 1855, yn dynodi man claddu un Anatemor, mab Lovernius, gyda'r arysgrif mewn priflythrennau Rhufeinig wedi eu torri yn dda.



Arysgrif o'r 5ed neu 6ed ganrif

Nawddsant yr eglwys yw Baglan ap Dingad, sant o'r 6ed ganrif a oedd yn gysylltiedig ag Ynys Enlli, ond ni ddylid ei gymysgu â'r sant Llydewig Baglan ab Ithel, oedd â'i gwilt ef yn ne Cymru. Un o ddywediadau Sant Baglan yw *Ffordd y Lanfaglan yd eir y nef*, sef 'trwy ffordd Llanfaglan yr eir i'r nefoedd'. Dyddia corff yr eglwys o'r 13eg ganrif, ond mae presenoldeb dwy garreg fedd endoredig o'r 12fed ganrif – un gyda cherfiad o long un hwylybren, o fath a fyddai'n gyfarwydd yn nyfroedd Bae Caernarfon ar y pryd – yn dystiolaeth o adeilad cynharach. Bu llawer o waith ailddodrefnu yn y 18fed ganrif, ond mae'n bosib bod y capel deheuol yn gynharach; dyddia porth anferth y fynwent o 1722, ac mae'n debyg bod y porth gogleddol, sydd yn cynnwys trawst canoloesol, o ddyddiad tebyg, ac yn sicr fe all y dodrefn gael eu tadogi yn hyderus i 1767, y dyddiad sydd wedi ei gerfio ar y pulpud. Ailosodwyd y gloch, a dyddir i 1790, yn 2003. Mae'r plât cymun, cwpan cymun o 1723 a hambwrdd o 1752, yn awr dan gadw yng Nghadeirlan Bangor, hefyd yn dystiolaeth o fywyd eglwysig ffyniannus yma yn y 18fed ganrif. Bu adeiladu eglwys newydd ar gyfer y plwyf yn 1871 yn golygu bod St Baglan yn rhydd o ymyrraeth adnewyddwyr Fictoriaidd. Cafodd ei rhoi i'r Friends of Friendless Churches yn 1991.

Mae tu mewn yr eglwys yn olau ac wedi ei galchu. Mae'r bedyddfaen ganoloesol yn unigryw yng Nghymru, gyda saith ochr, yn blaen erbyn hyn, ond efallai wedi ei beintio ar un adeg gyda darluniau o'r saith sacrament. Gosodwyd y seddi o'r 18fed ganrif, yn seddi agored a chaeedig, yn yr hyn a adnabyddir fel cynllun 'T' neu 'L', gyda phob sedd yn wynebu'r pulpud. Dim ond un enghraifft arall o'r drefniant hon o'r 18fed ganrif sydd yn goroesi heb ei haddasu yng Nghymru.

Ar garreg fawr ar y mur uwchben un sedd ceir cofnod o aelodau o'r teulu Jones, a oedd yn meddiannu'r sedd, gan gynnwys William, a frwydrodd ym myddin Dug Wellington yn y 'Peninsula War', ac a fu farw yn ngwarchae Badajoz.

Ceir arysgrifiadau a dyddiadau yn dynodi pechnogaeth ar rai o'r seddau eraill, gan gynnwys Syr William Owen o Bresaddfed, Bodedern ym Môn, ac, fel y cerfiad o long o'r 12fed ganrif, dengys hyn dystiolaeth o'r cysylltiadau agos rhwng Ynys Môn a'r rhan hon o'r tir mawr.



Pen un o'r seddau



Un o'r claddedaethau diweddar yn y fynwent yw un Anthony Armstrong-Jones, Iarll 1af Snowdon, ffotograffydd a dylunydd nodedig, a chyn-ŵr y Dywysoges Margaret, chwaer y Frenhines Elizabeth II. Mae gan ei deulu gysylltiadau agos â'r ardal.



Eglwysi cyfagos sydd hefyd dan ofal y Friends

Sant Bigail, Llanfigael eglwys o'r 18fed ganrif wedi ei hailadeiladu ym 1841 gyda thu mewn cyfnod Sioraidd cyflawn a thair bedyddfaen, y cynharaf ohonynt yn 14eg ganrif (eglwys ar agor).

Sant Afran, Sant Ieuan a Sant Sannan, Llantrisant Mae'r adeilad presennol yn dyddio o'r 14eg ganrif ond gyda safle sydd yn gynharach, a'r capel deheuol yn dyddio o'r 17eg ganrif. Un o'n heglwysi mwyaf anghysbell, ond yn un sydd yn cael ei hymweld amlaf (eglwys ar agor).



Pwy yw'r Friends?

Mae'r Friends yn caru eglwysi sydd heb eu caru. Hebom, byddent yn cael eu dymchwel, eu gwerthu fel tai, neu eu gadael yn angof. Ers 1957 rydym wedi ymgyrchu i eglwysi sydd ddim yn cael eu defnyddio i gael eu cadw, fel "pregethau mewn carreg".

Yng Nghymru, ariennir ein gwaith gan Cadw a'r Eglwys yng Nghymru. Ond yn Lloegr rydym yn dibynnu ar haelioni cyfranwyr ac aelodau.

Beth ydyn ni'n ei wneud?

Yr ydym yn cadw'r eglwysi hyn er mwynhad y gymuned leol ac ymwelwyr. Rydym yn eu gwneud yn gadarn yn erbyn y gwynt a'r dŵr, yn ail osod toeau a ffenestri, yn trwsio peipiau glaw a gwaith carreg. Ac rydym yn gwneud yn siŵr eu bod yn agored, neu bod ceidwaid cyfeillgar lleol ar gael i gadw llygaid arnynt. Nid digyfaill mwyach!

Os gwelwch yn dda, fydddech yn fodlon ymuno a'n helpu?

Mae eu cynnal a'u cadw yn her anferth. Yr ydym yn dibynnu ar haelioni pobl fel chi...

Ymuno

Ewch ar y we i ymweld â friendsoffriendlesschurches.org.uk. Wrth ymaelodi byddwch yn helpu i achub eglwysi. Yn ogystal, byddwch yn derbyn tri chylchlythyr hardd, yn llawn o wybodaeth am brosiectau cadwraeth, sgysiau, cyfarfodydd a llyfrau.




Cyfrannu

Anfonwch sic, yn daladwy i 'Friends of Friendless Churches' at FoFC, 70 Cowcross Street, London EC1M 6EJ.

Neu ewch at y wefan.


Yr ydym yn cymryd gofal i gadw ein costau gweinyddiaeth yn isel iawn. Â cyfraniadau yn uniongyrchol tuag at achub ac atgyweirio eglwysi. Gallai cymynrodd wneud gwahaniaeth fwy fyth. Siaradwch â'r Cyfarwyddwr ar 020 7236 3934.

www.friendsoffriendlesschurches.org.uk

Dewch o hyd i ni ar y cyfryngau cymdeithasol   

Rhif Elusen Gofrestredig: 1113097

 **FRIENDS OF FRIENDLESS CHURCHES** 



FRIENDS OF FRIENDLESS CHURCHES



Sant Peulan, Llanbeulan Nepell o Dal-y-Llyn. Mae'r fedyddfaen gerfiedig yn yr eglwys ganoloesol hon yn waith hynod o hanner cyntaf yr 11eg ganrif (eglwys ar agor).

Santes Fair, Tal-y-Llyn capel anwes i Lanbeulan yn wreiddiol, cafodd ei hadeiladu ar gyfer cymuned a ddinistriwyd fwy neu lai yn llwyr gan y 'Pla Du'. Ceir yn yr eglwys y meinciau carreg canoloesol a'r fedyddfaen wythonglog o'r 15fed ganrif (eglwys ar agor).



Eglwys Sant Baglan Llanfaglan

cyflwyniad i'w hanes